

RHEOLAU SEFYDLOG

**CYNGOR CYMUNED**  
**LLANDWROG**



Dyddiad mabwysiadu: **24 Ebrill 2006**

*Adolygwyd – Tachwedd 2009, Mawrth 2009, Rhagfyr 2010*

Cynnwys.

1. Cyflwyniad i'r Rheolau Sefydlog.
2. Cyfarfodydd y Cyngor.
3. Trefn busnes yn y cyfarfodydd.
4. Dirprwyo hawl a sefydlu Pwyllgorau a Gweithgorau.
5. Ymddygiad aelodau.
6. Buddiant personol.
7. Swyddog Priodol.
8. Adolygu'r Rheolau Sefydlog.
9. Atodiadau.

## RHEOLAU SEFYDLOG - CYNGOR CYMUNED LLANDWROG

### 1 Cyflwyniad i'r Rheolau Sefydlog.

- 1.1 Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yna i sicrhau fod gweithdrefnau Cyngor Cymuned Llandwrog yn cael ei gyflawni gyda threfn a chysondeb.
- 1.2 Bydd y Rheolau Sefydlog yn briodol i oll gyfarfodydd, busnes a phersonél y Cyngor a fydd yn cael eu crybwyll ynddynt.
- 1.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu nifer o Bolisiâu ar gyfer ei weithgareddau ac maent i'w canfod yn rhan Atodiadau o'r ddogfen hon.
- 1.4 Dyfarniad y Cadeirydd (gyda chyngor a chymorth y Clerc) fydd yn derfynol mewn unrhyw achos o ddehongli Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned.

### 2 Cyfarfodydd y Cyngor.

#### 2.1 Cyffredinol

- 2.1.1 Bydd pob cyfarfod gan y Cyngor neu ei Bwyllgorau neu ei weithgor yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog. Gall Cadeirydd, **yn y cyfarfod rhoi** heibio'r Rheolau Sefydlog a hynny ond gyda chytundeb o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau sydd ym mhresennol mewn cyfarfod. *Rhagfyr 2010*
- 2.1.2 Cofnodion: - Cofnodir gan y Clerc penderfyniadau a sylwadau perthnasol o bob cyfarfod ac fe'u cedwir ar ffurf cofnodion swyddogol. Ni fydd amrywiad neu newid i gofnod o gyfarfod unwaith y bo'r Cyngor wedi ei gadarnhau trwy bleidlais fel un cyflawn a chywir. Rhyddheir datganiadau i'r wasg o'r Cyngor gan y Clerc a hynny gydag awdurdod y Cadeirydd.
- 2.1.3 Y cyhoedd: - **Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd.** Tra anogir **presenoldeb** y cyhoedd, ni chânt gymryd rhan mewn trafodaeth gan y Cyngor. Ni all y cyhoedd fynegi eu barn neu ofyn cwestiynau oni bai fod toriad penodedig mewn cyfarfod. Ni fydd toriad o'r fath yn rhan o'r cyfarfod ffurfiol ei hun a rhaid i'r Cyngor gytuno yn unfrydol â'r Cadeirydd fod y toriad i ddigwydd. *Rhagfyr 2010*
- 2.1.4 Cyfrinachedd: - Bydd y Cadeirydd yn galw ar y cyhoedd i adael cyfarfod er mwyn i'r Cyngor drafod unrhyw achos y mae wedi ei ddyfarnu sydd angen mesur o gyfrinachedd a dwyn gofyn ffurfiol ar yr aelodau i beidio â rhoi manylion i eraill ynghylch unrhyw wybodaeth y maent yn ei dderbyn. Mewn achos o'r fath, ni fydd y Clerc yn cofnodi'r manylion perthnasol yn y gyfrol o gofnodion cyhoeddus.
- 2.1.5 Ysmygu: - Gwaherddir ysmygu.
- 2.1.6 Agenda: Ceir agenda'r Cyngor i'w amrywiol gyfarfodydd fel atodiad.

- 2.2 Cyfarfod blynyddol y Cyngor - **Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai. Mewn blwyddyn o etholiad mae'n ofynnol cyfarfod o fewn 14 diwrnod yn dilyn yr etholiad.** *Rhagfyr 2010*
- 2.3 Cwrdd Plwyf – Gellir cynnal y Cwrdd Plwyf mewn lleoliad **oddi fewn y gymuned ym mis Mai. Mewn blwyddyn o etholiad cynhelir y Cwrdd Plwyf cyn yr etholiad.** *Rhagfyr 2010*
- 2.4 Cyfarfodydd o'r Cyngor llawn - Cynhelir y cyfarfodydd tua'r trydydd dydd Llun pob mis, gan eithrio mis Awst, **oddi fewn y gymuned.** Bydd y Cyngor yn cyfarfod ar o leiaf un ar ddeg o adegau pob blwyddyn. Mae dyletswydd ar bob aelod i fod yn bresennol **a dylai aelod** estyn ymddiheuriad at sylw'r Clerc pan mae'n methu â mynychu cyfarfod.. *Rhagfyr 2010*
- 2.5 Cyfarfodydd arbennig – Cynhelir cyfarfod arbennig ymhen 3 diwrnod gan y Cadeirydd; un ai wedi iddo dderbyn cais ysgrifenedig oddi wrth aelod gyda chefnogaeth dau o'r aelodau neu, os yw o'r farn bod achos arwyddocaol angen dod at sylw'r Cyngor am benderfyniad brys.
- 2.6 Cyfarfod Pwyllgor - Cynhelir y cyfarfodydd fel y bo'r angen; yn unol â rhaglen waith y Cyngor. Na etholir Cadeirydd nac ychwaith Is-gadeirydd y Cyngor i swyddogaethau ar Bwyllgor. *Rhagfyr 2010*
- 2.7 Cyfarfod gweithgorau – Cynhelir y cyfarfodydd fel y bo'r angen yn unol â rhaglen waith y Cyngor. *Rhagfyr 2010*
- 2.8 Cworwm - Rhaid i draean o'r aelodau neu tri ohonynt, (pa un bynnag yw'r mwyaf ) fod yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod. Oni fydd cworwm o fewn cyfnod o ddeng munud llawn wedi'r amser cychwyn swyddogol i unrhyw gyfarfod, bydd y Cadeirydd yn peidio â'i gychwyn. Pe disgyn y nifer o aelodau yn bresennol mewn cyfarfod yn is na'r cworwm yna bydd y Cadeirydd yn dwyn y cyfarfod i ben yn unionsyth.

### **3 Trefn busnes yn y cyfarfodydd.**

#### **3.1 Arwain y cyfarfod**

- 3.1.1 Bydd Cadeirydd i bob cyfarfod a gynhelir gan y Cyngor, ei Bwyllgorau a'i weithgorau a hefyd unrhyw gyfarfod arall y mae yn ei gynnal. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod o'r Cyngor. *Rhagfyr 2010*
- 3.1.2 Y Cadeirydd sydd i sicrhau rheolaeth effeithlon a chywir o bob un cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau fod holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddigwyddiadau ffurfiol ac yn gosod awdurdod y gadair ar waith i alluogi trafodaethau priodol, penodol a chynhyrchiol. Bydd ei arweiniad ynghylch dehongli Rheolau Sefydlog y Cyngor yn weithredol ym mhob cyfarfod.

Gorwedd dyletswydd ar y Cadeirydd i sicrhau bod pob penderfyniad yn gyfreithlon.

- 3.1.3 Rhaid cyfeirio sylwadau gan aelodau mewn trafodaethau at y Cadeirydd a ni chaniateir mwy nag un aelod i leisio sylwadau ar y tro.
- 3.1.4 Rhaid i'r aelodau gyfyngu eu sylwadau a'u cyfraniad i'r mater o dan drafodaeth neu i achos cadw trefn yn y cyfarfod.
- 3.1.5 Ni all Cadeirydd anwybyddu dymuniadau'r aelodau oni bai fod y dymuniad hwnnw am achos cadw trefn sydd ddim â dilysrwydd iddo ym marn y Cadeirydd.
- 3.1.6 Cyfeirir at achos cadw trefn fel mater trefniadaeth yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac nid yw yn cyfeirio at sylwadau sylweddol neu wreiddiol mewn trafodaeth. Bydd y Cadeirydd, ar ôl ymgynghoriaeth, yn rheoli ar y mater.

## 3.2 Cynigion, eilio, gwelliannau a phenderfyniadau

- 3.2.1 Fe wneir pob penderfyniad drwy bleidlais. *Rhagfyr 2010*
- 3.2.2 Unwaith bydd aelod wedi cyflwyno ei Gynnig a hwnnw wedi sicrhau Eilydd, fe all y Cadeirydd wedyn alw am Welliant gan aelod arall. Ni chaniateir i Welliant ddiddymu'r Cynnig gwreiddiol gerbron y Cyngor a rhaid iddo gyfleu sylwedd gwahanol i gynnwys y Cynnig. Rhaid i Welliant, fel Cynnig, dderbyn Eilydd i fod yn ddilys ar gyfer derbyn pleidlais. Ni chaniateir trafodaeth ar Gynnig neu Welliant unwaith y mae gofyn y Cadeirydd i'r aelodau am Eilydd wedi methu ag ennyn ymateb.
- 3.2.3 Rhaid cynnal pleidlais ar Welliant cyn derbyn unrhyw Welliant pellach.
- 3.2.4 Pe bai'r Cynnig gwreiddiol yn cael ei dynnu'n ôl ymlaen llaw i bleidlais ar Welliant yna bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad drwy bleidleisio ar y Gwelliant, fydd wedyn wedi derbyn statws Cynnig. Ni ellir cael Gwelliant oni bai fod yna Gynnig.
- 3.2.5 Os erys y Cynnig ac os cytunir ar Welliant, bydd y Gwelliant hwnnw wedyn yn dod yn Gynnig gerbron i bleidleisio arno neu i'w addasu drwy Welliant pellach.
- 3.2.6 Fe ellir diddymu unrhyw Gynnig neu Welliant ar adeg cyn sicrhau Eilydd a hynny ond gyda dymuniad y cynigydd a chydsyniad y Cadeirydd. Ni fydd trafodaeth bellach ar Gynnig neu Welliant sydd wedi ei ddiddymu.
- 3.2.7 Pan drafodir Cynnig ni chaniateir i aelod roi Cynnig arall am rywbeth amherthnasol i'r drafodaeth a gynhelir oni bai ei fod am un o'r canlynol;
  - (i) I addasu Cynnig, sef Gwelliant.
  - (ii) I symud ymlaen i'r eitem nesaf o fusnes
  - (iii) I ohirio'r drafodaeth

- (iv) I ofyn am i'r Cynnig fynd yn unionsyth at bleidlais
- (v) I drosglwyddo'r Cynnig i Bwyllgor neu weithgor
- (vi) I wahardd y cyhoedd a'r wasg a gofyn am fesur o gyfrinachedd
- (vii) I'r Cyngor roi cyfarwyddyd i aelod i ddiweddu ei gyflwyniad.
- (viii) I wneud cais am gyfarwyddyd gan y Cyngor i aelod adael cyfarfod.

3.2.8 Caiff unrhyw Gynnig o'r uchod, sydd wedi ei Eilio, ei roi i bleidlais yn syth heb drafodaeth bellach, heb y gofyn am Welliant.

3.2.9 Caiff aelod y cyfle i egluro ymhellach ar ddiwedd trafodaeth unrhyw elfen o'i Gynnig ( sydd wedi derbyn Eilydd ) y mae'n ystyried sydd wedi ei gamddeall.

3.2.10 Y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar hyd ac ehangder trafodaethau a bydd yn ymarfer pwyll, gofal a doethineb i sicrhau nad oes ail adrodd, gor-ddweud nac anghydbwysedd yng nghyflwyniadau'r aelodau.

3.2.11 Unwaith y pleidleisir o blaid Cynnig yna fe fydd wedyn yn Benderfyniad Cyngor a ni chaniateir trafodaeth bellach arno yn yr un cyfarfod.

3.2.12 Bydd Penderfyniadau sydd angen gweithred gan y Clerc yn rhai o fath gweithredol yn unionsyth tra bo Penderfyniadau ynghylch polisiau a safbwyntiau yn weithredol ar gadarnhad o gyfarfod canlynol y Cyngor llawn fod y cofnod am y Penderfyniad yn un cywir.

3.2.13 Ni ellir diddymu neu newid Penderfyniad gan y Cyngor yn ystod cyfnod o chwe mis calendr ers y cyfarfod a chadarnhaodd y Penderfyniad, a hynny ond drwy Gynnig pellach.

### 3.3 Pleidleisio

3.3.1 Bydd yr aelodau yn pleidleisio trwy ddangos dwylo. Bydd y Cadeirydd yn gofyn am bleidleisiau o blaid ac yn erbyn.

3.3.2 Fe all aelod, cyn y digwydd pleidlais, ofyn i'r Clerc i'w bleidlais ef gael ei gofnodi.

3.3.3 Caiff aelod ofyn am gofrestru canlyniad pleidlais a bydd y Clerc wedyn yn cynnwys enwau'r aelodau a'r modd y bu iddynt pleidleisio, neu atal eu pleidlais, yng nghofnodion y cyfarfod.

3.3.4 Cynhelir pleidlais gudd ar bapur pe bo gofyn ar adeg trafodaeth gan o leiaf hanner yr aelodau yn bresennol mewn cyfarfod.

3.3.5 Bydd penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar farn y mwyafrif wedi ei gadarnhau gan bleidlais. Mae pob aelod yn ymrwymedig i benderfyniadau'r Cyngor.

- 3.3.6 Ar adeg pan fo pleidlais yn gyfartal, mae i'r Cadeirydd ail bleidlais i greu penderfyniad a hynny ond ar adeg pan mae wedi gwneud defnydd o'i bleidlais wreiddiol. Ni all Cadeirydd ddefnyddio'r ail bleidlais oni bai iddo bleidleisio yn wreiddiol ar y Cynnig.
- 3.3.7 Bydd datganiad y Cadeirydd, ar sail cyfrif y Clerc, am ganlyniad pleidlais yn derfynol.

#### **4 Dirprwyo hawl a sefydlu Pwyllgorau a Gweithgorau.**

- 4.1 Rhaid i'r Cyngor llawn gytuno ar bob achos o ddirprwyo hawl i weithredu. Caiff hawl ei drosglwyddo i'r Clerc, Bwyllgor a gweithgor. Ni chaiff yr hawl i fenthycu arian fyth ei drosglwyddo o afael y Cyngor llawn.
- 4.2 Yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, mae'r Clerc wedi ei awdurdodi i gyflawni gwariant unigol hyd at uchafswm penodedig mewn perthynas â gwasanaethau a chyflenwadau fel y bo'r angen.
- 4.3 Yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, mae'r Cadeirydd wedi ei awdurdodi i ganiatáu i'r Clerc gyflawni gwariant unigol hyd at uchafswm penodedig mewn perthynas â gwaith a ddynodir gan y Cadeirydd, trwy ymgynghoriad â'r Is-gadeirydd, fel gwaith hanfodol o fath brys. Bydd adroddiad manwl i'r Cyngor llawn gan y Cadeirydd yn dilyn pob achlysur o'r fath.

#### **4.4 Pwyllgorau'r Cyngor.**

- 4.4.1 Mae dau Bwyllgor gan y Cyngor; y naill wedi ei ddynodi gyda'r maes 'Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor' a'r llall gyda 'Cyllid y Cyngor'. Maent yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor. Bydd aelodaeth y ddau yn cynnwys :-

Cadeirydd y Cyngor.  
Is-gadeirydd y Cyngor.  
Chwe aelod o'r Cyngor

Ar wahân i'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ni chaniateir i aelod eistedd ar fwy nac un pwyllgor. *Rhagfyr 2010*

- 4.4.2 Bydd y Pwyllgorau newydd yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ystod eu cyfarfod cyntaf a byddent â'r swyddogaeth am gyfnod o ddeuddeg mis. Ni ddylid ethol Cadeirydd nag Is-gadeirydd y Cyngor. Mewn sefyllfa o absenoldeb Cadeirydd neu Is-gadeirydd fe all Cadeirydd neu Is Gadeirydd y Cyngor gymryd y Gadair.
- 4.4.3 Cyflwynir cofnodion o bob cyfarfod i'r Cyngor llawn nesaf yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor.

#### 4.5 Gweithgor :

4.5.1 Sefydli'r gweithgor ar gyfer gweithrediad penodol i argymhell arweiniad neu syniadau fel y bo'r angen, neu i drafod achosion arbennig yn ystod mis Awst. Mae'n ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor a bydd yr aelodaeth yn cynnwys :-

Cadeirydd y Cyngor.

Is-gadeirydd y Cyngor.

O leiaf chwe aelod o'r Cyngor . *Rhagfyr 2010*

4.5.2 Etholir Cadeirydd ar ddechrau pob cyfarfod. *Rhagfyr 2010*

4.5.3 Cyflwynir adroddiadau gan weithgor i'r Cyngor llawn.

### **5 Ymddygiad aelodau.**

5.1 Dylai pob aelod ymddwyn mewn modd cyfrifol, pwylllog a didwyll yn ystod cyfarfodydd gan arddel agwedd parhaol o barch tuag at y Gadair.

5.2 Dylai aelod sydd yn absennol o gyfarfod anfon gair o ymddiheuriad trwy un ai lythyr neu neges ar lafar i'w gyhoeddi yn y cyfarfod gan aelod arall neu'r Clerc. Yn unol a Chymal 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 daw yr aelodaeth i ben ar ddiwedd chwe mis o'r dyddiad y cyfarfod olaf y bu aelod yn bresennol oni bai fod y Cyngor wedi penderfynu derbyn fod rheswm yr absenoldeb fel un ddilys neu fod i'r Aelod fynychu Cyfarfod o'r Cyngor llawn neu bwyllgor cyn diwedd y cyfnod statudol o absenoldeb a ganiateir.

Mewn achos o absenoldeb barhaol fe adolygir rheswm yr absenoldeb yn fisol.

*Rhagfyr 2010*

### **CWYNION YN ERBYN Y CLERC A CHYNGHORWYR**

5.3 Bydd y Cyngor yn ymdrin â chwynion, nid anhysbys, oddi wrth y cyhoedd neu eraill am aelod neu'r Clerc mewn modd ffurfiol, cyflym a phriodol. Dylai cwynion am aelod fynd at sylw'r Clerc tra bo cwynion am y Clerc i fynd at sylw'r Cadeirydd. Dylid galw cyfarfod brys o'r Cyngor llawn cyn gynted ag y bo modd i drafod unrhyw gwyn, nid anhysbys, swyddogol difrifol a ddaw i law. Rhaid i'r cwyn fod yn ysgrifenedig gan y cwynwr. Bydd Cadeirydd y cyfarfod brys yn dyfarnu ymlaen llaw ynghylch gwahodd i'r cyfarfod yr unigolyn sydd dan sylw gan y cwynwr. Cyflwynir penderfyniad y Cyngor o'r cyfarfod brys, a'r rhesymau drostynt, yn ysgrifenedig i'r cwynwr a'r unigolyn sydd dan sylw gan y cwynwr mor fuan a gellir gwneud hynny wedi'r cyfarfod. *Rhagfyr 2010*

## 6 **Buddiant personol.**

- 6.1 Mae dyletswydd ar bob aelod i weithredu'n briodol a chydymffurfio â chòd ymddygiad y Cyngor sydd dyletswydd ar bob aelod i weithredu'n briodol a chydymffurfio â chòd ymddygiad y Cyngor sydd yn ddogfen gyfreithiol ac sydd yn rhoi arweiniad i'r aelodau ynghylch cynnal safonau ymddygiad priodol. Mae'r côd yn seiliedig ar yr egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hanfod y côd yw y gofyn i aelodau i weithredu'n agored ac yn anrhydeddus er budd y cyhoedd.  
*Rhagfyr 2010*
- 6.2 Deil pob aelod y ddyletswydd i weithredu'n briodol a chydymffurfio â chòd ymddygiad y Cyngor.
- 6.3 Mae Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Llandwrog yn ddogfen gyfreithiol sydd yn rhoi arweiniad i'r aelodau ynghylch cynnal safonau ymddygiad priodol. Mae'r côd yn seiliedig ar yr egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hanfod y côd yw y gofyn i aelodau i weithredu'n agored ac yn anrhydeddus er budd y cyhoedd.
- 6.4 Rhaid i aelod ddatgan buddiant personol cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol y gallai ( neu bobl yn agos iddo megis teulu neu gyfeillion ) elwa yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl eraill yn y gymuned, ar ganlyniad achos dan sylw gan y Cyngor. Mae hyn yn berthnasol pa un a yw'n gyfarfod llawn y Cyngor, yn Bwyllgor neu yn weithgor. Rhaid iddo ymadael o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth berthnasol ag unrhyw bleidlais oni bai ym marn y Cadeirydd fod y cysylltiad yn un pell lle gall wahodd yr aelod i aros yn y cyfarfod ond ni chaiff gymryd rhan yn y drafodaeth na'i phleidlais.

## 7 **Swyddog Priodol**

- 7.1 Ple mae statud, rheoliadau neu orchymyn yn gosod swyddogaeth neu ddyletswydd ar "Swyddog Priodol" y Cyngor yna Clerc y Cyngor fydd y "Swyddog Priodol".

## 8 **Adolygu'r Rheolau Sefydlog**

- 8.1 Pan dderbynnir cynnig sydd wedi ei eilio i ychwanegu at, newid neu ddileu'r Rheolau Sefydlog bydd yr achos yn cael ei ohirio heb drafodaeth i'w roi ar agenda ac i'w ystyried yng nghyfarfod y Cyngor llawn ganlynol.



## 9. ATODIADAU

## **Agenda i'r cyfarfodydd**

- 1 **Cyfarfod blynyddol y Cyngor** – Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol, ymhlith rhai eraill o ddewis y Cyngor;
  1. Ethol Cadeirydd y Cyngor.
  2. Ethol Is-gadeirydd.
  3. Cadarnhau aelodaeth y Pwyllgorau.
  4. Cadarnhau yr aelodau fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau allanol megis cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd.
  
- 2 **Cwrdd plwyf** – Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir islaw;
  1. Adroddiad gan glerc y Cyngor parthed gwaith a chyflawniadau y deuddeg mis a fu ers y cyfarfod diwethaf. Bydd y clerc hefyd yn amlinellu maes gwaith arfaethedig y Cyngor am y deuddeg mis i ddod.
  2. Gwahoddiad i'r cyhoedd i holi ac ymateb y Cyngor ynghylch adroddiad y clerc.
  3. Adroddiad gan aelodau o Gyngor Gwynedd am eu gweithgareddau ac am achosion lleol yn ystod y deuddeg mis a fu ers y cyfarfod diwethaf.
  4. Gwahoddiad i'r cyhoedd i holi ac ymateb ynghylch adroddiad y cynghorwyr.
  - 5 Derbyn awgrymiadau a syniadau gan y cyhoedd. *Rhagfyr 2010*
  
- 3 **Cyfarfodydd o'r Cyngor llawn** – Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir islaw, er bydd hawl gan y Cadeirydd i newid y drefn yn ol y gofyn;
  1. Croeso'r Cadeirydd.
  2. Ymddiheuriadau.
  3. Datgan buddiant.
  4. Cyflwyniad gan ymwelwyr.
  5. Derbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.
  6. Materion yn codi
  7. Cofnodion o gyfarfodydd Pwyllgorau ac adroddiadau gan weithgorau.
  8. Materion yn codi o gofnodion y Pwyllgorau .
  9. Materion yn codi o adroddiadau gan weithgorau.
  10. Gohebiaeth.
  11. Ceisiadau cynllunio.
  12. Adroddiad ariannol.

13. Materion i dderbyn sylw ar gais gynghorwyr.
14. Adroddiad i'r Cyngor gan aelodau Cyngor Gwynedd.

Rhaid i bob gohebiaeth / cais gan gynghorwyr fod mewn llaw'r Clerc saith diwrnod cyn y cyfarfod. *Rhagfyr 2010*

- 4 **Cyfarfod Pwyllgor** – Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir islaw;

1. Croeso'r Cadeirydd.
2. Ymddiheuriadau.
3. Datgan buddiant.
4. Trafod rhaglen sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor.

**D.S.** Bydd rhaid i'r aelodau ethol gadeirydd ac is-gadeirydd yn ystod cychwyn y cyfarfod cyntaf. Ni ddylid ethol Cadeirydd nac ychwaith Is-gadeirydd y Cyngor i'r swyddogaethau hyn. *Rhagfyr 2010*

- 5 **Cyfarfod gweithgorau** – Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir islaw;

1. Ethol Cadeirydd.
2. Ymddiheuriadau.
3. Datgan buddiant.
4. Trafod testun neu achos penodol a osodwyd ymlaen llaw gan y Cyngor.

*Rhagfyr 2010*

**Hysbysebu ynghylch cyfarfod** – Bydd y clerch yn rhoi tri diwrnod o rybudd, gan eithrio dydd Sul, i bob cynghorydd fel bo'n briodol, a'r cyhoedd, am gyfarfod Cyngor. *Rhagfyr 2010*

## Rheoliadau Ariannol

### 1. Cyffredinol

- 1.1 Y Clerc yw y Swyddog Cyllid Cyfrifol.
- 1.2 Mae'r rheoliadau ariannol hyn yn rheoli gweithrediadau ariannol y Cyngor ac ni chanafeir eu newid heb benderfyniad y Cyngor.
- 1.3 Y Clerc, o dan ofalaeth y Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, fydd yn gyfrifol am holl weinyddiaeth cywir trafodiadau ariannol y Cyngor. *Ionawr 2011*
- 1.4 Bydd y Clerc yn gyfrifol am ddarparu holl wybodaeth gweinyddu cyllidol.

### 2. Amcangyfrifon Blynyddol

- 2.1 Y Pwyllgor Cyllid sydd yn gyfrifol am ddarparu cynigion i'r Cyngor parthed costau refeniw a chyfalaf y flwyddyn ariannol ganlynol erbyn cyfarfod llawn o'r Cyngor fis Ionawr. *Ionawr 2011*
- 2.2 Darperir amcangyfrif cynhwysfawr o holl incwn a gwariant am y flwyddyn gan y Clerc.
- 2.3 Bydd y Cyngor yn adolygu'r amcangyfrifon yng nghyfarfod Tachwedd ymhob blwyddyn ac yn pennu Praesept am y flwyddyn ganlynol. Darperir copiau o'r amcangyfrifon i bob aelod gan y Clerc.
- 2.4 Cyllideb: Yr amcangyfrifon a gadarnhawyd fydd y gyllideb wedyn a byddent yn sail i'r rheolaeth ariannol am y flwyddyn ganlynol.

### 3. Rheolaeth Cyllidol

- 3.1 Caniateir gwariant refeniw hyd at y symiau a benodwyd yn y gyllideb.
- 3.2 Ni chaniateir unrhyw wariant ychwanegol oni bai y gellir ei drosglwyddo o bennawd arall ar ei gyfer.. *Ionawr 2011*
- 3.3 Bydd y Clerc yn darparu adroddiadau cyson am wariant ac incwm i'r Pwyllgor Cyllid i gymharu'r gwir ffigyrau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, a sefydlu'r balansau ynghyd a darparu copiau perthnasol o'r mantolenni banc.
- 3.4 Ni chanafeir gwariant ar gyfer unrhyw brosiect cyfalafol neu gontract oni bai fod y Cyngor yn sicr fod y cyllid ar gael ar eu cyfer neu fod caniatad benthyca wedi ei sicrhau.
- 3.5 Gweinyddir holl waith cyllidol y Cyngor yn unol a'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol

### 4. Cyfrifwaith ac Archwilio

- 4.1 Pennir holl weithgareddau cyfrifo a chofnodion ariannol y Cyngor gan y Clerc yn unol a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003.
- 4.2 Bydd y Clerc yn gyfrifol am gwblhau datganiad ariannol blynyddol y Cyngor mor fuan ag y bo modd wedi diwedd y flwyddyn ariannol a'u cyflwyno gydag adroddiad i'r Cyngor.
- 4.3 Bydd y Clerc yn gyfrifol am gwblhau Cyfrifon y Cyngor a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol (a ddarperir gan yr Archwliwr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio) a chyflwyno'r Adroddiad i'w gadarnhau gan y Cyngor yn unol a Rheoliadau 2003 uchod.
- 4.4 Bydd y Clerc yn gyfrifol am sicrhau fod trefn effeithiol a digonol ar gyfer archwilio a rheoli gweithgareddau ariannol y Cyngor yn unol a Chymal 6

- o Reoliadau 2003 uchod. Bydd yn ofynnol ar unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Cyngor i sicrhau fod pob dogfen ynghyd ac unrhyw eglurhad neu wybodaeth at bwrpas archwilio ar gael ar gais y Clerc neu'r archwiliwr.
- 4.5 Bydd yr Archwiliwr Mewnol yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y Cyngor er mwyn adrodd i'r Archwiliwr ar gyfer ei adroddiad blynyddol. Bydd yr Archwiliwr Mewnol yn fedrus yn ei waith ac yn annibynnol o weithgareddau'r Cyngor hefyd yn adrodd i'r Cyngor o bryd i'w gilydd gyda lleiafswm o un adroddiad blynyddol. *Ionawr 2011*
  - 4.6 Bydd y Clerc yn gyfrifol am wneud trefniadau i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd gael archwilio llyfrau cyfrifon a dogfennau'r Cyngor yn unol a Deddf Comisiwn Archwilio 1998 (cymal 15) a Rheoliadau 2003 uchod.
  - 4.7 Bydd y Clerc yn cyflwyno i sylw'r Cyngor unrhyw adroddiad neu lythyr a dderbynir gan yr Archwiliwyr Allanol neu Fewnol oni bai mai mater pur weinyddol yn unig sydd dan sylw.

## 5 Trefniadau Bancio a Sieciau

- 5.1 Gwneir yr holl drefniadau gan y Clerc a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Fe'u hadolygir yn rheolaidd i bwrpas effeithiolrwydd.
- 5.2 Mae'r Clerc i gyflwyno rhestr o daliadau ynghyd a'r talebau i'r Cyngor ym mhob un cyfarfod llawn a chofnodir y penderfyniad amdanynt.
- 5.3 Llofnodir pob siec gan y Clerc a dau aelod o'r Cyngor Gweler 5.2 a 6.4.
- 5.4 Dylasid arwyddo pob bonyn siec neu anfoneb gan y llofnodwyr er sicrhau fod y siec yn gywir

## 6 Taliadau y Cyfrifon

- 6.1 Pob taliad i'w wneud gyda siec ar gyfrif banc y Cyngor.
- 6.2 Pob anfoneb i'w harchwilio'n fanwl gan y Clerc a'i harwyddo cyn ei thalu. Dylasai'r Clerc fodloni eu hun fod pob gwaith wedi ei wneud, nwydd wedi ei gyflawni a bod yr anfoneb yn hollol gywir a dilys.
- 6.3 Bydd y Clerc yn sicrhau cywirdeb anfonebau a'u trin yn gywir i bwrpas cyfrifo. Dylasid gwneud pob ymdrech i gyflwyno pob swm dyledus i'w dalu i'r Cyfarfod nesaf o'r Cyngor.
- 6.4 Os bydd angen talu swm dyledus ar frys cyn Cyfarfod nesaf y Cyngor a chaniatau fod y Clerc yn fodlon fod y swm taladwy yn gywir canateir y Swyddog gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i dalu'r swm ac adrodd i'r Cyngor yn y Cyfarfod dilynol.
- 6.5 Ni chanateir talu mewn arian parod a rhaid bancio pob derbyneb mewn arian parod yn brydlon ac fel y'i derbyniwyd. Digolledir y Clerc am unrhyw fan wariant megis stampiau post yn gyson

## 7 Talu cyflogau

- 7.1 Telir unrhyw gyflog yn unol a rheoliadau PAYE ac Yswiriant Cenedlaethol ar raddfa a gymeradwywyd gan y Cyngor gan gadw cofnodion manwl pwrpasol.
- 7.2 Canateir talu'r cyflogau ac unrhyw swm dyledus ar gyfer treth incwm, yswiriant a phensiwn yn unol a chofnodion y rhestr gyflogi ar y dyddiadau

penodol ar yr amod fod adroddiad llawn i'w gyflwyno'n rheolaidd i'r Cyngor

## 8 Benthyciadau a Buddsoddiadau

- 8.1 Trefnir pob benthyciad a buddsoddiad yn enw'r Cyngor am gyfnod penodol yn unol a pholisi'r Cyngor.
- 8.2 Bydd Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor yn cydymffurfio a Deddf Ymddiriedolaethau 2000 ac fe'i adolygir yn flynyddol. Gweler atodiad STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER CYNGOR CYMUNED LLANDWROG.
- 8.3 Bydd pob buddsoddiad o dan reolaeth y Cyngor yn enw'r Cyngor.
- 8.4 Bydd pob benthyciad yn enw'r Cyngor ac yn dilyn sicrhau y caniatad anghenrheidiol. Bydd pob cais yn cael ei gadarnhau ymlaen law gan y Cyngor wedi ystyried ei bwrpas a'r telerau.
- 8.5 Y Clerc fydd yn gyfrifol am gadw'r dogfennau perthnasol

## 9 Incwm

- 9.1 Cyfrifoldeb y Clerc fydd casglu holl incwm y Cyngor.
- 9.2 Pennir holl raddfeydd yr incwm yn flynyddol gan y Cyngor.
- 9.3 Adolygir yr holl raddfeydd yn flynyddol yn dilyn adroddiad gan y Clerc.
- 9.4 Bydd adroddiad ar unrhyw symiau nas gellir eu casglu ac fe'i dileir yn y flwyddyn ariannol.
- 9.5 Bydd pob incwm yn cael ei fancio heb ataliad a hynny mor aml ac y penderfynnir gan y Clerc.
- 9.6 Rhoddi'r manylion pob derbyneb ar y bonyn banc.
- 9.7 Ni channateir newid sieciau personol allan o arian y Cyngor.
- 9.8 Bydd y Clerc yn cwblhau yn brydlon unrhyw adroddiad TAW. Hawlir unrhyw ad-daliad yn unol a Deddf TAW 1994 (cymal 33) unwaith y flwyddyn fan bellaf.
- 9.9 Os derbynir symiau sylweddol o arian bydd y Clerc mewn ymgynghoriad yn trefnu fod mwy nag un person i'w gyfrif, fod modd sicrhau cywirdeb y swm ac y bod trefniadau addas i'w gwneud i sicrhau diogelwch wrth fancio.

## 10 Archebu Gwaith, Nwyddau a Gwasanaethau

- 10.1 Dylasid sicrhau archeb swyddogol neu lythyr a chadw copi ar gyfer pob gwaith, nwyddau neu wasanaeth heblaw fod Cytundeb ffurfiol mewn grym.
- 10.2 Rheolir y llyfrau archebu gan y Clerc.
- 10.3 Bydd cyfrifoldeb ar y Cyngor a'r Clerc i sicrhau gwerth am arian ar pob achlysur trwy gael prisiau cystadleuol gan gyflenwyr addas. *Ionawr 2011*
- 10.4 Bydd yn ofynnol ar y Clerc i sicrhau fod pob pryniant yn gyfreithlon cyn archebu ac mewn achlysuron arbennig adrodd i'r Cyngor ar yr hawl statudol ddefnyddir a gwneud cofnod addas.
- 10.5 Caniateir y Clerc i archebu Gwaith, Nwyddau a Gwasanaethau hyd at swm o £500 mewn mater brys na all ddisgwyl tan y cyfarfod nesaf, ond

## 11 Contractau

- 11.1 Mae'n orfodol i pob Cytundeb gydymffurfio a'r Rheoliadau Ariannol heb eithriad heblaw:
- (i) Cyflenwi nwy, trydan, dwr a charthffosiaeth a gwasanaethau ffon
  - (ii) Gwasanaethau arbenigol megis gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, tirlfesurwyr a chynllunwyr
  - (iii) Trwsio neu ymgeleddu darpar technegol sydd eisoes ym meddiant y Cyngor
  - (iv) Nwyddau fel rhan o Gontract sydd eisoes mewn grym
  - (v) Gwaith yr Archwiliwr.
  - (vi) Nwyddau sydd yn cael eu gwerthu ar bris wedi ei osod
- 11.2 Ple mae bwriad i wneud Cytundeb mwy na £3000 mewn gwerth am gyflenwi nwyddau neu sicrhau gwasanaeth nad ydynt wedi eu heithrio uchod yna bydd y Clerc yn gwahodd cynigion gan o leiaf dri cwmni o restr wedi ei chymeradwyo.
- 11.3 Os bydd cais i beidio a chydymffurfio a'r Rheolau Ariannol a chytuno pris heb fynd i gystadleuaeth bydd yn ofynol egluro'r rheswm i'r Cyngor.
- 11.4 Bydd unrhyw wahoddiad i roi cynnig yn egluro natur y Cytundeb arfaethedig a bydd yn ofynnol ar y Clerc i sicrhau y cymorth technegol priodol ar gyfer darparu unrhyw ddogfennau. Dylasid cyfeirio pob cynnig i'r Clerc wedi eu selio mewn amlenni pwrpasol.
- 11.5 Agorir y cynigion ar ddyddiad penodedig gan y Clerc ac o leiaf un Aelod o'r Cyngor.
- 11.6 Os derbynnir llai na thri cynnig am gytundebau mwy na £3000 neu os bydd pob cynnig yr un fath yna bydd yn ofynnol ar y Cyngor i wneud trefniadau priodol.
- 11.7 Bydd pob gwahoddiad i tendro yn cynnwys cyfeiriad at y Rheolau Statudol perthnasol. *Ionawr 2011*
- 11.8 Os bydd y Cytundeb am swm llai na £3000 ac heb ei eithrio uchod yna bydd yn ofynnol ar y Clerc i geisio o leiaf 3 pris ar ei gyfer.
- 11.9 Ni fydd unrhyw ymrwymiad ar y Cyngor i dderbyn yr isaf, neu unrhyw bris, cynnig neu amcangyfrif. *Ionawr 2011*

## 12 Taliadau Cytundebau Adeiladu a Gweithfeydd

- 12.1 Gwneir rhan-daliadau ar gytundebau yn unol a'r amserlen yn y cytundeb gan y Clerc ar sail tystysgrifau y pensaer neu unrhyw ymgynghorydd arall a benodwyd i oruchwylio'r gwaith.
- 12.2 Os bydd angen talu mewn rhandaliadau cedwir cofnod manwl o hyn gan y Clerc. Os bydd amcangyfrif y gost yn fwy na 5% o'r hyn a gytunwyd ( ag eithro newidiadau a gytunwyd) bydd angen adroddiad llawn i'r Cyngor.
- 12.3 Bydd yn rhaid cael cytundeb ysgrifenedig y Cyngor i newid, ychwanegu neu adael allan unrhyw ran o gytundeb. Bydd angen adrodd i'r Cyngor os bydd y gost terfynol yn fwy na'r darpariaeth.

### 13 Ystorfeydd ac Offer

- 13.1 Bydd y Clerc a gofal am unrhyw adran yn gyfrifol am ystorfeydd ac offer yr adran.
- 13.2 Dylid sicrhau talebau ar gyfer unrhyw nwyddau a dderbynir gan sicrhau fod eu hansawdd yn dderbyniol.
- 13.3 Ni ddylid cadw mwy o nwyddau nag sy'n rhesymol.
- 13.4 Bydd y Clerc yn sicrhau dilysrwydd y stoc yn achlysurol

### 14 Eiddo ac Ystadau

- 14.1 Cedwir cofodion manwl gan y Clerc o holl eiddo'r Cyngor yn dangos manylion lleoliad. Arwynebedd, cyfeirnod, manylion pryniant, natur y daliad, unrhyw denantiaid, rhenti taladwy a'r pwrpas yn unol a Rheoliadau sydd mewn grym ar y pryd. Bydd y Clerc yn sicrhau diogelwch holl weithredoedd eiddo'r Cyngor. Ionawr 2011
- 14.2 Ni chanaiteir gwerthu unrhyw eiddo y Cyngor heb awdurdod y Cyngor ac unrhyw ganiatad arall cyfreithiol angenrheidiol heblaw lle bo gwerth eiddo symudol yn llai na £50.

### 15 Yswiriant

- 15.1 Yn dilyn asesiad risg blynyddol bydd y Clerc yn trefnu holl yswirannau'r Cyngor ac unrhyw hawliadau perthnasol.
- 15.2 Gofynnir i'r Clerc hysbysu'r Pwyllgor Cyllid o unrhyw newidiadau fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn.
- 15.3 Cedwir manylion o'r holl yswiriannau gan y Clerc yn dangos yr eiddo a'r risgiau eraill ac yn adolygu yr angen yn flynyddol.
- 15.4 Bydd y Clerc yn hysbysu'r Cyngor yn ddioed o unrhyw golled neu ddifrod a all olygu hawlio yn erbyn yr yswiriant.
- 15.5 Bydd holl weithwyr y Cyngor yn cael eu cynwys mewn polisi ffideliti ar raddfa risg a bennir gan y Cyngor

### 16 Elusennau

- 16.1 Mewn sefyllfa ple mae'r Cyngor yr unig ymddiriedolwr mewn elusen bydd yn orfodol ar y Clerc gadw holl gyfrifon ac asedau'r elusen ar wahan yn unol a Deddf Elusennau neu gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau. Bydd unrhyw archwiliad yn cael ei drefnu gan y Clerc.

### 17 Rheoli Risg

- 17.1 Darperir adroddiadau asesiad risg gan y Clerc ar holl weithgareddau'r Cyngor.
- 17.2 Wrth ystyried unrhyw weithgaredd o'r newydd darperir adroddiad asesu risg arno gan y Clerc i bwrpas ystyried yr oblygiadau cyfreithiol ac ariannol. Dylai'r Cyngor ystyried , os yn addas , fabwysiadu'r adroddiad.



## 18 Rheoliadau Ariannol

- 18.1 Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid ar ol y Cyfarfod Blynyddol , bydd y rholiadau Ariannol yn cael ei adolygu am ei addasrwydd a sefydlu strategaeth am y flwyddyn I ddod. *Ionawr 2011*

### **STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER CYNGOR CYMUNED LLANDWROG -**

#### 1 Cyffredinol

- 1.1 Paratoir y Strategaeth Flynyddol hon yn unol a chanllawiau statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhyrchir y Strategaeth hon yn atodol at unrhyw Ddatganiad Polisi Rheoli Cyllid.
- 1.2 Caiff yr holl fantolenni banc, asedau ariannol, benthyciadau a threfniadau arian a chredyd eu diffinio fel rhan o weithgareddau rheoli Cyllid y Cyngor. Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon yn canolbwyntio ar adnoddau gwarged dros dro y Cyngor (neu asedau ariannol eraill y mae'n meddu arnynt) a'r achosion lle y mae'n buddsoddi'r adnoddau hyn.
- 1.3 Ceisia'r Cyngor sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei holl fuddsoddiadau yn hytrach na'u maint. Wrth drafftio'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon, mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodoli ar gyfer:
- nodi, trin a rheoli risgiau yn y gweithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid y mae'n ymgymeryd â hwy,
  - trefniadau cyllidebu, cyfrifo, ac archwilio,
  - ei ofynion rheoli arian a llif arian,
  - gwahanu cyfrifoldebau, trefniadau sefydliadol, dogfennau digonol a phennu swyddog sy'n gyfrifol am weithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid,
  - rheolaeth gorfforaethol,
  - gweithdrefnau i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall wynebu ymgais i'w gynnwys mewn gweithrediad sy'n cynnwys gwyngalchu arian.
  - Adolygu'n rheolaidd y trefniant bancio er mwyn sicrhau y cyfradd llog mwyaf manteisiol

- 1.4 Caiff holl fuddsoddiadau'r Cyngor eu gwneud a'u had-dalu mewn sterling.

#### 2 **SYMIAU I'W BUDDSODDI:**

- 2.1 Gan adolygu y gyllideb, mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn nodi derbyn y praesept mewn dau daliad tros gyfnod y flwyddyn.
- 2.2 Fe fydd y cyntaf yn digwydd yn ystod Ebrill a'r olaf yn ystod Medi o'r un flwyddyn. Os fydd unrhyw newid i'r drefn yma, disgwylir i Cyngor Gwynedd rhoi gwybod mewn da bryd i'r Cyngor er mwyn iddynt adolygu y llif arian.
- 2.3 Yn ystod y flwyddyn, cedwir arian mewn cyfrif cadw gyda llog.
- 2.4 Yn achlysurol os oes swm o arian ble na ddefnyddir hwy gan y Cyngor Cymuned yn unionsyth, fe roddir am dymor penodedig mewn cyfrif bond, gyda banc y Cyngorer mwyn ennill mwy o arian llog. Unwaith fydd yr arian yma yn rhydd o rhwymedigaethau amser, fe fydd ad-dalaid yn ôl i'r cyfrif cadw.

- 2.5 Cedwir symiau sydd ei angen yn wythnosol yn y cyfrif Cyfredol gan geisio a bob achlysur minimeiddio y swm sydd yma'n bodoli.
- 2.6 Mai'n reol gan Gyngor Cymuned Llandwrog i gadw £5,000 yn flynyddol fel arian wrth gefn.

### **3 RHESTR O FUDDSODDIADAU**

- 3.1 Bydd y Cyngor yn ymgymeryd â'r categorïau canlynol o fuddsoddiad ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol.
- 3.2 Adneuo arian parod mewn cyfrifon Cyfredol hyd at uchafswm o £1,000.
- 3.3 Adneuo arian yn y cyfrif cadw, arian heb ei glustnodi hyd at uchafswm o £10,000.
- 3.4 Adneuo arian mewn cyfrifon sy'n ennill llog am 3 mis ym Manc y Cyngor hyd at uchafswm o £10,000.
- 3.5 Adneuo unrhyw arian arall mewn cyfrifon sy'n ennill llog am 6 mis yn Manc y Cyngor.

### **4 BUDDSODDIADAU ARBENNIG**

- 4.1 Os caiff unrhyw offer buddsoddi newydd (ar wahan i'r rhai a gymeradywyd yn y rhestr uchod) eu cynnig yn ystod blwyddyn ariannol, fe fydd rhaid i fuddsoddiad o'r fath gael ei gael ei gymeradwyo gan bwyllgor cyllid Gyngor Cymuned Llandwrog drwy hawl dirprwyedig penodedig .

### **5 TREFN ADOLYGU Y STRATEGAETH BUDDSODDI**

- 5.1 Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid ar ol y Cyfarfod Blynyddol, bydd y strategaeth yn cael ei adolygu am ei addasrwydd a sefydlu strategaeth am y flwyddyn i ddod.

### **6 GEIRFA**

- 6.1 Trefniadau credyd – mae hyn yn cwmpasu pob math o fenthyciadau neu drafodion credyd y gallai'r Cyngor ymgymeryd â hwy.

# **CYNGOR CYMUNED LLANDWROG.**

## **RHEOLIADAU MYNVENTYDD.**

### **Cyflwyniad**



Mae'r Cyngor yn gyfrifol am dair mynwent yng nghymuned Llandwrog;

- (a) Mynwent Brynyrodyn yn Y Groeslon.
- (b) Mynwent Carmel yng Ngharmel.
- (c) Mynwent Gyhoeddus Llandwrog yn Llandwrog.

Clerc y Cyngor sydd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol am y tair mynwent ac mae'n gofalu am y cofnodion statudol. Gellir gweld y cofnodion ond drwy drefniant o flaen llaw ar daliad yn unol â ffioedd y Cyngor. Bydd ffi ychwanegol am ddarparu copïau.

Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r rheolau a'r ffioedd fel y bo'r angen. Gweithredir rheolaeth y Mynventydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ogystal ag unrhyw orchymyn a ddarperir gan y Cynulliad i Gymru.

### **Rheoliadau.**

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth i'r Clerc o leiaf dri diwrnod cyn y gladdedigaethgyda'r rhybydd claddu ac unthyw ffurflen perthnasol eraill.
2. Ni chaniateir claddu cyn 10 o'r gloch y bore nac ar ôl 3 o'r gloch y prynhawn yn yr Haf. (2 o'r gloch yn y Gaeaf). Ni cheir claddu ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.
3. Mae'n ofynnol pan fo ail agor bedd neu yn achos agor tro cyntaf bedd sydd gyda'r hawl claddu cyfyngedig wedi ei bwrcasu ymlaen llaw, fod y rhybudd i'r Clerc yn cynnwys caniatâd ysgrifenedig deilydd cyfredol yr hawl claddu cyfyngedig hwnnw.
4. Rhaid talu'r holl ffioedd priodol i'r Clerc gyda'r Rhybydd Claddu neu gyda chais i osod cofeb yn unol a ffioedd cyfredol y Cyngor.
  - 4.1 Mewn achos 'mhle bydd yr ymadawedig yn marw o fewn 5 mlynedd wedi gadael y gymuned bydd y ffi'r gymuned yn berthnasol.
  - 4.2 Bydd cymar yn cael ei gladdu am ffi'r gymuned – pa bynnag lleoliad ei breswylfa
  - 4.3 Ffi'r tu allan i'r gymuned leol sydd yn berthnasol os nad yw preswylfa sefydlog yr ymadawedig wedi bod oddi fewn y gymuned am 2 flynedd cyn dyddiad y marwolaeth.

5. Ni chaniateir naddu a thrwsio cofebion y tu fewn i'r fynwent. Bydd rhaid cludo pob ddefnyddiau a chofadeiliau o'r fynwent wrth baratoi am gladdedigaeth gan sicrhau na ddifrodir beddau eraill nac unrhyw beth o fewn ffiniau'r fynwent.
6. Ni chaniateir i neb gau allan fedd neu safle bedd mewn unrhyw ffordd.
7. Ni chaniateir **prydlesu** hawl claddu cyfyngedig ond pan fo angen i'w ddefnyddio ar y pryd ac ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.
- 8 Prydlesu am 75 mlynedd , ac nid prynu bedd, a ganiateir.
9. Mae pob plot i gladdedigaeth yn mesur 2.44 medr (8 troedfedd) o hyd, 1.22 medr (4 troedfedd) o lêd a 2.44 medr (8 troedfedd) o ddyfnder, hynny yw bedd newydd ar gyfer tri chladdedigaeth. Rhaid i'r gofeb gydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch maint, ffurf a'r dulliau gosod.
10. Ni chaniateir llai na 0.6medr (2 troedfedd) o bridd uwchben yr arch olaf o wyneb y tir.
11. Mae cyfrifoldeb am feddrod, hynny yw, y gofeb, a thu mewn i ffiniau cerbiau yn disgyn ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.
12. Bydd unrhyw un sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir i drydydd parti wrth wneud y gwaith.
13. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir i eiddo'r cyhoedd neu eraill o fewn y fynwent gan drydydd parti.
14. Ni chaniateir y cyhoedd i balu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn. Ni chaniateir ychwaith nodweddion ar y tir o flaen carreg neu gofeb **ac eithrio bedd plentyn**.
15. Ni chaniateir y cyhoedd i ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau'r fynwent.
16. Gwaherddir peiriant cloddio JCB a'i debyg ran maint o fewn y mynwentydd. Caniateir peiriant bychan "mini digger" yn unig.
- 17 Mae pob ymgymwrwr sydd yn agor bedd yn gyfrifol am dacluso ar eu hôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd o'r fynwent yn unionsyth ar ôl yr angladd. Os na wneir hyn gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymwrwr. Tra bydd bedd yn agored mae'n angenrheidiol ei orchuddio'n ddigonol. Rhaid i'r gwaith agor bedd gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladwaith 1961 ac 1966.
- 18 Mae llwch i'w gladdu mewn manau sydd wedi eu dynodi'n arbennig i'r pwrpas. Beddrodau i fesur 0.915 medr wrth 0.915 medr (llathen sgwâr), dyfnder o 0.6 medr (2 troedfedd), gyda lle i uchafrif o bedair cist. Rhaid i'r

gofeb gydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch maint, ffurf a'r dulliau gosod.  
**Copi o'r ddogfen polisi fel atodiad.**

19 Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf ei chymeradwyo yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig gan y Cyngor. Bydd rhaid anfon y ffurflen briodol wedi ei chwblhau'n llawn ac yn dangos manylion y gofeb at y Clerc i'w hystyried gan y Cyngor. Rhoddir hawl gweithredu i'r Clerc, ond pan fo angen gall y Clerc ymgynghori a'r Cadeirydd i ddatgan barn yn enw'r Cyngor.

20 Perchenogion y cofebion sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr da. Hysbysir perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y gofeb yn ddiogel (Yr hawl wedi ei roi dan Gyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977). Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o arwyddocâd. Golyga hyn gweithredu heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r teuluoedd.

21 Gwaherddir cŵn o'r mynwentydd, gan eithrio cŵn tywys.

22 Gwaherddir defnydd o'r mynwentydd fel man i blant chwarae neu fel lleoliad i gynnal chwaraeon.

Rhagfyr 2010 23 Rhaid unrhyw blot newydd fod hefo cofeb lawnt - oni bai fod y bedd mewn rhes lle mae cerbiau yn bodoli eisoes.

Chwefror 2011 24 Mae'n orfodol ar gyfer pob claddedigaeth, ac eithrio bedd plentyn, fod cist o flocs neu frics pedair modfedd yn amgylchu pob arch gyda slab concriid dwy fodfedd o ddyfnder yn cau ar ben yr arch

### ***Polisi Agor Beddi- Iechyd a Diogelwch***

Mawrth 2011 Cyngor Cymuned Llandwrog yw'r awdurdod claddu a pherchennog mynwentydd Carmel, Llandwrog a Bryn'rodyn ac felly mae'n ymarfer y ddyletswydd gofal eithafol (ultimate duty of care) oherwydd gwahanol ddeddfwriaethau. Mae felly yn gosod a gweithredu Polisi yn ymwneud â'i fynwentydd fydd yn cyfeirio at iechyd a diogelwch a'r gwaith a wneir gan ymgymerywr, waeth bynnag pwy sydd yn eu cyflogi.

Cyfrifoldeb y Trefnydd Angladdau (a gyflogir gan deulu'r ymadawedig) yw penodi a chyflogi agorwr beddau. Rhaid i'r Cyngor dderbyn asesiad risg a chopi o ddull gwaith diogel gan Drefnydd Angladdau a'i gymeradwyo'n ffurfiol cyn ei fod â'r hawl i gyflawni gwaith agor bedd ym mynwentydd y

Cyngor. Fel rhan o'r weithred hwn bydd y Cyngor yn disgwyl fod yr agorwr beddi yn defnyddio deunyddiau pwrpasol yn benodol 'shoring equipment' priodol wrth wneud y cloddiad i gefnogi'r ddaear ac atal cwmpiad, ac i warchod iechyd a diogelwch yr agorwr beddi wrth wneud ei waith , y galarwyr, y clerigwyr , a staff y cyfarwyddwr angladdau yn ystod y gwasanaeth claddu. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl, yn flynyddol, copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y Trefnydd Angladdau sydd yn berthnasol i unrhyw waith a wneir yn fynwentydd y Cyngor hwn.

Ar unrhyw gyfnod na fydd yr agorwr beddi / trefnydd angladdau ar y safle wedi iddo wneud y gwaith cloddio, bydd rhaid gosod rhwystr dros dro o amgylch y bedd, neu sicrhau fod y bedd wedi ei orchuddio yn ddiogel.

Trwy ôl lenwi'r bedd , bydd y Cyngor yn gofyn i'r ymgymwrwr wasgu'r pridd pob 6 modfedd trwy sathru'r pridd er mwyn ceisio lleihau effaith pridd y bedd yn suddo a chostau ail lefelu costus. Bydd y bedd yn cael ei orchuddio gan yr ymgymwrwr gyda thywyrch addas i adael yn daclus. Rhaid i'r ymgymwrwr symud unrhyw bridd yn weddill o'i waith i safle penodedig a gosod y blodau a thyrch yn daclus ar y bedd.

Bydd aelodau'r Cyngor, yn achlysurol, yn monitro gwaith ymgymwrwr ac awdurdodi'r aelodau hynny i atal y gwaith os nad yw ymgymwrwr yn cydymffurfio a'r polisi hwn.

Clerc Y Cyngor  
DR adolygwyd Mawrth 2011